

Adolygiad Gwella Ansawdd Grŵp Llandrillo Menai

Adroddiad Technegol

Mai 2022

Cynnwys

Ynglŷn â dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd	1
Ynglŷn â'r adolygiad hwn	1
Ynglŷn â'r adroddiad hwn.....	1
Dyfarniad trosfwaol ynglŷn â Grŵp Llandrillo Menai	2
1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparydd, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad	2
2 Safonau academaidd a phrosesau ansawdd	5
3 Darpariaeth gydweithredol.....	12

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ynglŷn â dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio'r dull ar gyfer cynnal [Adolygiad Gwella Ansawdd \(QER\)](#) ac mae'n cynnwys dolenni at y llawlyfr QER a dogfennau defnyddiol eraill.¹ Ar gyfer 2021-22, roedd cwmpas Adolygiadau Gwella Ansawdd yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd yn unol â newidiadau CCAUC i ofynion sicrhau ansawdd allanol mewn ymateb i bandemig COVID-19. O ganlyniad, cyhoeddodd QAA atodiad i gyd-fynd â'r llawlyfr QER sy'n esbonio'r addasiadau i'r dull cyflwyno. Ar gyfer 2021-22, mae gan ddarparwyr gyfle i ymgysylltu â QAA ar wahân ynghylch gwella ansawdd. Gallwch hefyd ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch \(QAA\)](#).²

Ynglŷn â'r adolygiad hwn

Dyma'r Adroddiad Technegol o'r Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) a gynhaliwyd gan QAA gyda Grŵp Llandrillo Menai. Cynhaliwyd yr Ymweliad Adolygu ar-lein rhwng 9^{fed} a 10^{fed} Mai 2022. Cynhaliwyd yr adolygiad gan dîm o dri adolygydd:

- Ms Lesley Davis (Adolygydd)
- Dr Christine Jones (Adolygydd)
- Dr Harry Williams (Myfyriwr Adolygydd).

Cyn yr ymweliad adolygu, cyflwynodd y darparydd Adroddiad Newid, adroddiad hunan-asesu Addysg Uwch, Mapio GLIM o'r Cod Ansawdd i'r ddogfen Hunan-asesu, mapio o'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) i Bolisiau a Gweithdrefnau GLIM, ynghyd â Chyflwyniad gan y Myfyrwyr.

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn, mae'r tîm Adolygiad Gwella Ansawdd yn gwneud dyfarniadau ar y canlynol:

- gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) Rhan 1 ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd yng Nghymru

Mae'r dyfarniadau i'w gweld ar dudalen 2, ac yna ceir canfyddiadau manwl yr adolygiad mewn paragraffau wedi'u rhifo.

Mae Adroddiadau Technegol yn nodi barn y tîm QER o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad ar Ddeilliannau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r QER ar gyfer cynulleidfa ehangach. Mae'r [Adroddiad ar Ddeilliannau](#) ar gyfer yr adolygiad hwn ar wefan QAA.³

Mae Adroddiadau Technegol QER wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer y darparydd a adolygydd, ac i ddarparu sylfaen wybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws sawl darparydd.

¹ Ynglŷn â QER: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd

² Ynglŷn â QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni

³ Adroddiad ar Ddeilliannau: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Gr-p-Llandrillo-Menai

Dyfarniad trosfwaol ynglŷn â Grŵp Llandrillo Menai

Mae Grŵp Llandrillo Menai **yn bodloni** gofynion Rhan 1 ESG ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol.

Mae Grŵp Llandrillo Menai **yn bodloni** gofynion sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

Mae hwn yn ddyfarniad cadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparydd drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau safonau academaidd, rheoli ansawdd academaidd ac ar gyfer gwella ansawdd profiad myfyrwyr.

1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparydd, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

1.1 Gwybodaeth gryno am y darparydd, gan gynnwys fframwaith strategol a strwythur sefydliadol

1 Sefydlwyd Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp; GLIM) ym mis Ebrill 2012 yn dilyn uno tri choleg llwyddiannus ar draws ardal eang o Ogledd Cymru. Y colegau gwreiddiol oedd Coleg Llandrillo (CLI), Coleg Menai (CM) a Choleg Meirion-Dwyfor (CMD). Cedwir y rhain fel aelod-golegau, gan ychwanegu Busnes@ (GLIM). Mae'r Grŵp yn un o'r darparwyr addysg bellach (AB) mwyaf o ran cynnig rhaglenni addysg uwch (AU) yng Nghymru, ac mae'n un o ddim ond tri choleg yng Nghymru sydd â statws Ariannu Uniongyrchol, sy'n galluogi mynediad uniongyrchol at incwm trwy ffioedd myfyrwyr. Dilysir y ddarpariaeth gan Brifysgol Bangor (PB) fel rhan o bartneriaeth strategol ddatblygedig. Mae *Pearson Edexcel* yn dilysu HNC/D mewn Peirianeg Gyffredinol a HNC yn y Celfyddydau Perfformio.

2 Mae darpariaeth AU GLIM yn cyd-fynd â chynllun strategol presennol y sefydliad, gan ganolbwyntio'n benodol ar Nod Strategol 2 - 'Creu gweithlu medrus i gefnogi cyflogwyr'. Mae'r cynllun yn ystyried blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y canlynol: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Aliniad â Sero Net - gyda blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol yn hanfodol ar gyfer unrhyw ddatblygiad AU yn y dyfodol. Mae'r blaenoriaethau wedi'u nodi fel a ganlyn: Ynni a'r Amgylchedd; Adeiladu; Gweithgynhyrchu Uwch; Creadigol a Digidol; Twristiaeth a Lletygarwch; Iechyd a Gofal; Bwyd a Ffermio; Cyllidol a Phroffesiynol.

3 Yn strategol, mae Bwrdd GLIM wedi ystyried y blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth AU y Grŵp, ac wedi nodi nifer o feysydd allweddol i'w datblygu gan gynnwys cefnogi adferiad a thwf economaidd rhanbarthol, ehangu cyfranogiad, gwreiddio cynladwyedd a digideiddio, datblygu llwybrau AU galwedigaethol lefel 4 a 5 ymhellach, gwella partneriaethau AU strategol Gwellwyd cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg, a dull cyflwyno effeithlon.

4 Roedd Prifysgol Bangor yn cydnabod GLIM fel partner dibynadwy a chyflwynodd broses ddilysu newydd yn 2018-19. Bu cynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog ar draws y Grŵp yn gyffredinol, gyda datblygiadau penodol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Y newid mwyaf arwyddocaol ers Adolygiad diwethaf QAA fu ymateb y Grŵp i COVID-19 er mwyn parhau â darpariaeth effeithiol ar gyfer dysgwyr. Datblygwyd addysgu hybrid yn gyflym ac mae wedi cael ei groesawu gan staff a myfyrwyr. Newidiwyd arsylwi ar addysgu hefyd i gydnabod datblygiad addysgu hybrid a chyflwynwyd 'Trafodaeth Broffesiynol' newydd fel rhan o arsylwi ar addysgu.

1.2 Natur, tueddiadau allweddol a newidiadau a ragwelir yn y boblogaeth myfyrwyr, gan gynnwys gwybodaeth am ddargadwedd, dilyniant a chanlyniadau

5 Ar adeg yr ymweliad roedd 340 o gofrestrïadau llawn-amser, 399 rhan-amser a 184 o gofrestrïadau unigol. Mae niferoedd myfyrwyr wedi gostwng ar gyfer darpariaeth llawn-amser (28%) a rhan-amser (9%) ers 2019-20 gyda gostyngiad o 52 y cant mewn cofrestrïadau unigol yn 2021-22. Mae yna 1533 o aelodau staff. Darlithio yw prif rôl 581 o'r rhain - mae 488 yn barhaol gyda 292 yn gweithio fel darlithwyr llawn-amser a 196 ar gontractau parhaol nad ydynt yn llawn-amser. Mae 93 o staff ar gytundebau dros-dro, gyda phump o'r rheiny ar oriau llawn-amser.

6 Mae nifer y myfyrwyr sy'n aros ar raglenni AU llawn-amser wedi parhau'n sefydlog drwy gydol y pandemig: 90.3% yn 2018-19; 89.9% yn 2019-20; ac 89.8% yn 2020-21. Fodd bynnag, nodwyd gostyngiad amlwg yn y cyfraddau dargadwedd blynyddol rhan-amser yn 2020-21. O ffigwr dargadwedd o 92.9% yn 2018-19 bu gostyngiad o 5% yn 2020-21 i 87.7%. Achosodd effaith COVID-19 gyfyngiadau ar leoliadau ar raglenni TAR ac Arfer Gofal Iechyd, a chan fod niferoedd bach mewn Astudiaethau Byddardod a'r MA Celfyddyd Gain, mae'r ffigwr canrannol cyffredinol yn cael ei effeithio'n negyddol.

1.3 Sylwadau ar y paratodau ar gyfer yr adolygiad, gan gynnwys sut y gweithiodd y darparydd a'r myfyrwyr mewn partneriaeth wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad

7 Mae GLIM yn sicrhau cyfranogiad ystod o staff ar bob lefel wrth baratoi ar gyfer unrhyw weithgaredd hunanasesu. Mae'r ddogfen hunan-werthuso flynyddol (SED) yn cael ei chynhyrchu gan amrywiaeth o reolwyr strategol a gweithredol a ffurfiodd y tîm paratoi craidd, gan gynnwys Llywydd Undeb y Myfyrwyr AU, sydd wedi'i benodi'n Brif Gynrychiolydd y Myfyrwyr, a'r Cydgysylltydd Sicrhau Ansawdd sy'n arwain yr agwedd academaidd ar gyfer Ansawdd AU.

8 Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i diwtoriaid rhaglen am y gweithgareddau wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad, a rhoddwyd gwybod iddynt am y broses adolygu mewn sesiwn rhannu gwybodaeth ym mis Ionawr. Mae'r Ddogfen Hunan-werthuso (SED) 2019-20 ac Adroddiad Hunan-asesu (SAR) QAA wedi'u rhannu â'r tîm gweithredol, uwch reolwyr a rheolwyr canol, yn ogystal â'r corff myfyrwyr trwy Lywydd yr Undeb.

9 Lluniwyd cyflwyniad y myfyrwyr yn dilyn nifer o grwpiau ffocws, y defnydd o baneli dysgwyr a'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS), lle cyfrannodd myfyrwyr at y broses adolygu. Nod cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr yw '..cyflwyno golwg gyfannol ar brofiad dysgu myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai a chynrychioli barn myfyrwyr am y sefydliad.'

10 Trwy gydol yr adolygiad, mae rheolwyr wedi cael eu cyfarwyddo i ymateb i adborth dysgwyr. Mae camau gweithredu yn dilyn gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr wedi'u monitro o fewn strwythur pwyllgorau'r Grŵp y mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelod gweithredol ohono. Mae'r adolygiad llawn wedi'i rannu â myfyrwyr trwy Gynrychiolwyr Dosbarth AU, ar eDrac ac fel eitem ar yr agenda yn ystod y gynhadledd ar gyfer Dysgwyr AU.

1.4 Crynodeb o waith dilynol y darparydd yn sgil yr adolygiad blaenorol

11 Mae'r Grŵp wedi bod trwy ddau adolygiad QAA yn flaenorol. Yn 2013 bu'n destun Adolygiad Graddau Sylfaen, a arweiniodd at argymhellion ynghylch ymgysylltu â chyflogwyr, dysgu yn y gweithle, sgiliau astudio a dychwelyd asesiadau'n brydlon. Nodwyd arfer da hefyd o ran datblygu rôl yr Arweinydd Academaidd AU. Yn 2016 bu'r Grŵp yn destun

Adolygiad Gwella Ansawdd : Cymru gan dderbyn pedwar argymhelliad yn ymwneud â'r system cynrychiolwyr myfyrwyr; mecanweithiau i hysbysu myfyrwyr am ganlyniadau arolygon ar lefel sefydliadol a modiwl; amseru ac amserlennu asesiadau; a gweithdrefn ar gyfer adolygiad cylchol o ddarpariaeth *Pearson* gyda hyfforddiant priodol i staff ar baneli ac mewn timau rhaglen. Nodwyd arfer da hefyd o ran cymorth i fyfyrwyr: y defnydd o adroddiadau gan arholwyr allanol; partneriaethau effeithiol â chyflogwyr; effeithiolrwydd y Grŵp Ansawdd a Safonau AU; a'r system olrhain ar-lein. Arweiniodd y naill adolygiad a'r llall at ddeilliannau cadarnhaol ar y cyfan. Aethpwyd i'r afael yn llwyddiannus â'r cynlluniau gweithredu a ddeilliodd o'r ddau adolygiad.

12 Cynhaliodd GLIM Adolygiad Cylchol o'i raglenni *Pearson* yn Rhagfyr 2017, lle nodwyd pum maes o arfer da gan gynnwys: y berthynas ragorol rhwng staff a myfyrwyr; cysylltiadau da gyda diwydiant; diwallu anghenion lleol trwy ddarparu rhaglenni Peirianeg Gyffredinol; y cymorth a ddarperir i fyfyrwyr; ac ymatebion i ddilyswyr allanol.

13 Roedd nifer o Feysydd i'w Datblygu (Argymhellion) yn ymwneud â recriwtio, marchnata, hyrwyddo gwybodaeth i fyfyrwyr, cynllunio asesiadau, adborth, adnoddau, cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, defnyddio polisiâu a gweithdrefnau GLIM, dulliau asesu, datblygiad proffesiynol parhaus a chymeradwyo HND. Ar y cyfan roedd hwn yn ganlyniad cadarnhaol, ac aethpwyd i'r afael â'r cynllun gweithredu yn llwyddiannus.

1.5 (Lle bo'n berthnasol) manylion am gyfrifoldebau'r darparydd am yr addysg uwch y mae'n ei darparu ar ran y corff/cyrff dyfarnu graddau y mae'n gweithio gyda nhw

14 Yn 2011, daeth Prifysgol Bangor (PB) yn bartner strategol allweddol y Grŵp ar gyfer datblygu a darparu addysg uwch, gan gynnwys graddau sylfaen. Mae canllawiau clir ar gyfer cyfrifoldebau GLIM a PB. Ar gyfer darpariaeth a ddilysir gan PB, mae'r Grŵp yn gyfrifol am sawl maes gan gynnwys gosod, marcio cyntaf, a chymedroli asesiadau, adborth i fyfyrwyr, recriwtio a derbyniadau, ymgysylltu â myfyrwyr, a rheoli perthnasoedd â sefydliadau partner eraill. Maent yn rhannu'r cyfrifoldeb dros: ddatblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni; cymeradwyo'r staff addysgu; adnoddau dysgu; adolygu cylchol a monitro blynyddol; ymateb i adroddiadau arholwyr allanol; cwynion ac apeliadau myfyrwyr; cynhyrchu gwybodaeth ddiffiniol ar gyfer rhaglenni a gwelliant.

15 Mae'r Grŵp hefyd yn gweithio gyda *Pearson* fel partner dyfarnu cymwysterau ac mae'n gyfrifol am y meysydd cyfatebol a restrir ym mharagraff 14 ar gyfer PB. Mae *Pearson* yn gyfrifol am bennu arholwyr allanol a chymeradwyo ymateb darparwyr i'w hadroddiadau, ennill cydnabyddiaeth i gymwysterau Cenedlaethol Uwch gan Ofqual, darparu'r fanyleb gyffredinol ar gyfer cymwysterau gyda deilliannau dysgu a meini prawf asesu, adolygu staff addysgu, ac adolygiad cylchol o'r cymwysterau hyn.

2 Safonau academiaidd a phrosesau ansawdd

2.1 Nodweddion allweddol dull y darparwydd o reoli ansawdd a sut mae myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cyfrannu at reoli ansawdd y dysgu

16 Mae'r Grŵp Ansawdd a Safonau Academiaidd AU (HEQASG), dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Academiaidd (EDAS), yn gyfrifol am fonitro, adolygu ac adrodd ar y trefniadau ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu'r holl raglenni AU. Mae HEQASG yn adrodd i'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau (CSSC), sy'n is-bwyllgor o Fwrdd y Gorfforaeth. Mae adroddiadau o bwyllgorau rheolaeth academiaidd a chydgyngorol y Grŵp yn galluogi Bwrdd y Gorfforaeth i gwblhau'r datganiadau sicrwydd blynyddol i CCAUC. Er bod darpariaeth AU y Grŵp yn cael ei chyflwyno ar draws sawl campws gwahanol, caiff pob un ei arwain gan Bennaeth sy'n gyfrifol am reoli'r gweithrediadau o ddydd i ddydd. Ar lefel Grŵp, mae'r EDAS yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad a datblygiad systemau ansawdd a chynllunio, yn ogystal â chyfleoedd datblygu staff.

17 Mae GLIM wedi sefydlu prosesau ansawdd i reoli ansawdd yr addysgu a'r dysgu, a amlinellir yn Fframwaith Ansawdd y Grŵp. Mae'r broses yn dechrau ar lefel rhaglen lle mae Arweinwyr Rhaglen yn cwblhau Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen (APR) ar gyfer y ddarpariaeth a ddilyswyd gan PB neu Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Rhaglen (APMR) ar gyfer darpariaeth Pearson. Caiff APR/APMR eu datblygu mewn ymgynghoriad â staff addysgu ac maent yn cwmpasu ystod eang o feysydd gan gynnwys recriwtio, canlyniadau ac adborth gan fyfyrwyr. Mae adroddiadau cyflawn yn cael eu cymedroli gan y Bwrdd Myfyrwyr perthnasol, fel arfer ym mis Medi neu fis Hydref, ac yna'n cael eu hanfon at Arholwr Allanol y rhaglen, y Cymedrolwr Allanol, a'r partner dilysu.

18 Yn dilyn y broses APR/APMR, mae Rheolwyr y Maes Rhaglen yn cynhyrchu Adroddiad Hunan-asesu Maes Rhaglen (PASAR) i fynd i'r afael â themâu allweddol a meysydd i'w datblygu a nodwyd yn yr APR/APMR. Mae pob PASAR yn cael ei gymedroli gan Bennaeth Coleg, Pennaeth Cynorthwyol Coleg, a Chyfarwyddwr Ansawdd y Grŵp, gyda Chyfarwyddwr Ansawdd y Grŵp a Phennaeth Cynorthwyol y Coleg yn olrhain gweithrediad y camau a nodir ym mhob PASAR. Mae'r rhain yn bwydo i mewn i ddatblygiad y Ddogfen Hunan-werthuso AU (HE SED), a adolygir yn HEQASG a'i chymedroli gan Dîm Polisi'r Grŵp. Cyflwynir y Ddogfen Hunan-werthuso AU hefyd i Fwrdd y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad unrhyw gamau dilynol.

19 Mae'r Grŵp yn cymryd sawl cam i ennyn diddordeb ei gorff myfyrwyr addysg uwch mewn sicrhau ansawdd, gan gynnwys perthynas waith agos ac ystyrlon ag Undeb y Myfyrwyr. Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelod o sawl grŵp allweddol, gan gynnwys Bwrdd y Gorfforaeth, y CSSC, HEQASG, a'r cyfarfod Rheoli AU. Ar lefel cwrs, gwahoddir myfyrwyr i enwebu ac ethol cynrychiolwyr sydd wedyn yn mynychu Cyfarfodydd Tîm y Cwrs a chyfarfodydd y Bwrdd Astudiaethau. Mae barn y myfyrwyr hefyd yn cael ei chasglu trwy arolygon modiwl, grwpiau ffocws a phaneli dysgwyr, a thrwy gwblhau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad adolygu, nododd y tîm fod ymgysylltiad myfyrwyr ag arolygon modiwl mewnol yn wael. Mae'r Grŵp yn cydnabod hwn fel maes i'w ddatblygu, a nododd y tîm eu bod eisoes wedi neilltuo amser i fyfyrwyr gwblhau arolygon modiwl fel rhan o'u hamserlen ddyddiol. Nid yw effaith yr ymyriad hwn eto'n glir; serch hynny, mae'r tîm yn cadarnhau'r camau a gymerwyd i ymwneud ymhellach â'r garfan amrywiol o fyfyrwyr sy'n galluogi'r Grŵp i weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr ac i wella profiad dysgu'r myfyrwyr hynny.

2.2 Nodweddion allweddol y dull o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academiaidd

20 Mae Cyfarwyddwr AU GLIM gyda chefnogaeth y Rheolwr AU, yn sicrhau bod safonau academiaidd yn cael eu gosod, eu hadolygu a'u hasesu'n effeithiol o fewn y Grŵp. Mae darpariaeth a ddilysir gan Brifysgol Bangor hefyd yn elwa o gefnogaeth Cymedrolwr Allanol o'r Brifysgol, sy'n gweithredu fel 'cyfaill beirniadol'. Yn ogystal â goruchwyllo'r rhaglen ar gyfer PB ar ôl dilysu, mae'r cymedrolwr hefyd yn cynnig cefnogaeth i dimau drwy ailddatblygu ac adolygu cyrsiau, ac yn darparu haen ychwanegol o graffu ar safonau. Yn dilyn cymeradwyo cynnig rhaglen newydd gan y Cyfarwyddwr AU, mae'r Rheolwr AU, gan weithio gyda'r tîm ansawdd, yn cynorthwyo staff i baratoi ar gyfer dilysu. Maent yn sicrhau defnydd priodol o Ddatganiadau Meincnod Pwnc Datganiadau Nodweddion perthnasol, a chyfeirnodau allanol eraill. Lle bo'n berthnasol, mae staff yn gweithio gyda chyrrff proffesiynol i sicrhau y gellir bodloni'r gofynion ar gyfer achredu. Mae PB yn dilysu darpariaeth AU y Grŵp ac yn penodi arholwyr allanol, ynghyd â staff profiadol o'r Brifysgol fel cymedrolwyr. Mae allanoldeb o'r fath yn hanfodol i sicrhau y gellir cymharu safonau â rhai sefydliadau eraill.

21 Mae Gwasanaethau Dysgwyr yn gweithio'n glòs gyda'r Swyddog Derbyniadau a Gyrfaoedd Addysg Uwch (HEACO) a benodwyd yn ddiweddar, timau rhaglen a'r Tîm Marchnata yn y broses Dderbyniadau. Mae mentrau diweddar, megis y HEACO yn cymryd cyfrifoldeb am y broses dderbyniadau ar draws y Grŵp, yn ogystal â chynnwys manylion am ddiwrnodau astudio ac ymrestru mewn llythyrau cynnig, wedi galluogi mwy o gysondeb ac wedi annog dilyniant. Mae'r tîm adolygu'n cadarnhau datblygiadau sy'n cael eu gwneud i sicrhau proses dderbyniadau addysg uwch symlach trwy rôl y Swyddog Derbyniadau a Gyrfaoedd Addysg Uwch.

22 Mae'r Grŵp yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu fel y gall pob dysgwr ddangos ei allu i'r eithaf. Trafodir ffurfiau asesu mewn manylder fel rhan o'r broses ddilysu. Mae ymgysylltu parhaus ag arholwyr allanol yn rhoi sicrwydd ychwanegol bod safonau yn bodloni disgwyliadau trothwy. Caiff pob traethawd hir ei ail-farcio ynghyd â chanran o'r holl asesiadau eraill yn dibynnu ar faint y grŵp a lefel y risg. Lle mae darpariaeth ar gael ar fwy nag un safle, gellir tynnu ail farcwyr o wahanol gampysau, sy'n helpu i sicrhau cymaroldeb a chysondeb ar draws safleoedd.

23 Mae yna Bolisi Asesu AU a Chanllawiau Asesu AU cynhwysfawr i gynorthwyo staff, tra bod y Gweithdrefnau a'r Rheoliadau ar gyfer Byrddau Arholi'n egluro rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol fyrddau dyfarnu'n glir. Gwnaed addasiadau priodol i'r gweithdrefnau a'r rheoliadau yn 2020, mewn ymateb i'r pandemig.

24 Defnyddir system a ddatblygwyd yn fewnol, a elwir yn Rheolwr Dyfarniadau, ar gyfer olrhain marciau myfyrwyr a chyflwyno canlyniadau asesu i fyrddau arholi. Mae'r system hefyd yn olrhain data am fodiwlau gan gynnwys gwyrriad safonol a marciau cyfartalog, ac mae canllawiau ar gael i staff ar gyfer cofrestru marciau. Mae'r adolygiad o gyflawniadau myfyrwyr gan ddefnyddio'r system hon yn glir a thryloyw, ac yn agored i graffu gan holl aelodau'r bwrdd arholi.

25 Mae gan y Grŵp bolisi sefydledig ar gamymddwyn academiaidd a elwir yn Bolisi Arfer Annheg. Caiff hwn ei adolygu ddwywaith y flwyddyn a bydd ar gael i bob myfyriwr ar wefan Polisiau AU y Grŵp. Darperir crynodeb o achosion Arfer Annheg fesul rhaglen i arholwyr allanol a chymedrolwyr yn flynyddol. Cyflwynwyd Turnitin yn 2015, a chyflwynir yr holl waith, ar wahân i nifer fach o asesiadau, drwy'r porth hwn. [000d]. Darperir canllawiau ar ddefnydd a phwrpas Turnitin i fyfyrwyr a staff.

2.3 Defnyddio cyfeirbwyntiau allanol mewn prosesau ansawdd

26 Cenhadaeth allweddol y Grŵp yw ehangu mynediad a lleihau rhwystrau i AU, gan gynnwys cynyddu maint y ddarpariaeth yn Gymraeg. Mae'r Coleg yn aelod o Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru. Caiff adroddiad cydraddoldeb blynyddol manwl ei gynhyrchu, sy'n mynd at wraidd setiau data perthnasol. Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad 2021-22 yn nodi ymhellach sut mae'r Grŵp yn ymateb yn rhagweithiol i'w flaenoriaethau o ran ehangu mynediad. Mae'r tîm adolygu'n cadarnhau'r camau sy'n cael eu cymryd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) i gynyddu cyfleoedd galwedigaethol mewn AU trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y rhanbarth.

27 Mae gan GLIM berthynas strategol gref a sefydledig gyda Phrifysgol Bangor sy'n dilysu eu rhaglenni AU. Mae'r berthynas hon yn bwysig i sicrhau bod gofynion y Côt Ansawdd a Rhan 1 yr ESG yn cael eu bodloni. Mae Ymgynghorwyr Pwnc Allanol yn chwarae rhan ganolog yn y broses ddilysu trwy gynhyrchu adroddiadau manwl ar graffu academiaidd ar gyfer Prifysgol Bangor, cyn cymeradwyo'r rhaglen. Fel y nodir ym mharagraff 20, mae cymedrolwyr o'r Brifysgol yn rhoi cymorth i ddarlithwyr o'r Grŵp, ac yn helpu i sicrhau bod safonau a chysondeb yn cael eu cynnal ar draws safleoedd. Mae gan arholwyr allanol a chymedrolwyr fynediad i'r holl waith, maent yn mynychu'r byrddau arholi ac yn cynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig. Nododd y tîm adolygu bod cymedrolwyr hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant academiaidd i ddarlithwyr o fewn y Grŵp, a bod y rhain wedi cael derbyniad da.

28 Mae'r Grŵp yn arbennig o awyddus bod ei ddarpariaeth AU yn bodloni anghenion cyflogwyr lleol a bod eu myfyrwyr yn datblygu'r sgiliau proffesiynol angenrheidiol i fod yn llwyddiannus yn y gweithle. Mae adborth gan gyn-fyfyrwyr a chyflogwyr wedi'u gwreiddio'n effeithiol mewn llawer o brosesau ansawdd, gan gynnwys dilysu a chynllunio rhaglenni. Mae Tystysgrif L4 mewn Arfer Gofal Iechyd yn enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth. Caiff yr holl fyfyrwyr eu secondio o'u Hymddiriedolaeth GIG, a chaiff derbyniadau eu cadeirio ar y cyd gan y Grŵp a'r Ymddiriedolaeth. Mae'r rhaglen yn cael ei goruchwylio gan fwrdd partneriaeth sy'n cyfarfod dwy neu dair gwaith y flwyddyn ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r naill sefydliad a'r llall.

29 Gwnaeth sawl cyflogwr sylwadau cadarnhaol am eu perthynas â'r Grŵp a'i ymrwymiad i gefnogi gweithlu dwyieithog. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** yr arfer o gynnwys cyflogwyr ac arbenigwyr pwnc allanol eraill wrth gynllunio a chyflwyno rhaglenni, sy'n effeithiol o ran gwella profiad galwedigaethol a dilyniant y myfyrwyr.

30 Mae'r Grŵp yn cadw cofrestr o gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRB) a chaiff cynlluniau gweithredu manwl eu cynhyrchu yn dilyn ymweliadau achredu. Sefydlwyd gweithdrefn ar gyfer adolygiad cylchol o ddarpariaeth *Pearson* yn 2017, yn dilyn adolygiad QAA yn 2016.

2.4 Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a nodi materion yn codi o'r Pecyn Gwybodaeth Blaenorol nas archwiliwyd fel arall

31 Daeth Adolygiad Sefydliadol QAA 2016 i dri dyfarniad ar wahân o 'fodloni disgwyliadau'r DU' o ran gosod a chynnal safonau academiaidd, ansawdd y cyfleoedd dysgu, ac ansawdd y wybodaeth a gynhyrchir am ei ddarpariaeth. O ran y pedwerydd maes ar gyfer dyfarniad, sef gwella cyfleoedd dysgu myfyrwyr, derbyniodd y Grŵp ganmoliaeth .

32 Nodwyd pum maes o arfer da gan y tîm adolygu yn 2016, ac roedd pedwar argymhelliad . Roedd yr argymhelliad cyntaf yn canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau i wneud y defnydd gorau a mwyaf effeithiol o'r system cynrychioli myfyrwyr (paragraff 11).

Roedd yr ail yn argymhell cryfhau'r mecanweithiau ar gyfer sicrhau bod pob myfyriwr yn cael gwybod am ganlyniadau arolygon ar lefel sefydliadol a modiwl.

33 Mae'r Grŵp wedi cymryd nifer o gamau gweithredu mewn ymateb i'r ddau argymhelliad hyn, gan gynnwys creu rôl Llywydd Undeb y Myfyrwyr AU. Mae Llywydd yr Undeb yn cyfarfod yn rheolaidd â'r corff myfyrwyr AU ac, fel y nodir ym mharagraff 19, mae'n eistedd ar bob pwyllgor rheoli a llywodraethu allweddol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod llais y dysgwr AU yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel.

34 Mae paragraff 19 yn amlinellu camau gweithredu ychwanegol a gymerwyd gan y Grŵp i gryfhau llais y dysgwr, a gwnaeth staff a myfyrwyr sylwadau cadarnhaol ar y broses gwerthuso modiwlau datganoledig a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Yn gyffredinol, teimlai'r myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu eu bod wedi derbyn gwybodaeth lawn a'u bod yn ymwybodol o ba newidiadau oedd yn cael eu gwneud i'w rhaglenni o ganlyniad i'w hadborth.

35 Y trydydd argymhelliad o'r adolygiad blaenorol oedd gwella cynllunio a chyfathrebu rhwng staff addysgu er mwyn osgoi gorlwytho o ran amseru ac amserlennu asesiadau. Bellach, gofynnir i gynrychiolwyr myfyrwyr, trwy eu Bwrdd Myfyrwyr roi adborth ar ddyddiadau cyflwyno gwaith cyn y cânt eu rhannu. Ymatebodd staff TAR yn brydlon i sylwadau am osod gormod o aseiniadau mewn cyfnod byr yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2020-21, ac maent bellach yn cynnwys cam gweithredu ychwanegol yn yr Adroddiad Blynyddol ar Raglenni sy'n cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn. Dywedodd rhai o'r myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu y gall clystyru asesiadau ddiwydd o bryd i'w gilydd, ond roeddent yn fodlon bod y broses bresennol yn helpu i sicrhau bod unrhyw anawsterau'n cael eu datrys yn gyflym.

36 Yr argymhelliad olaf yn Adolygiad QAA 2016 oedd rhoi sefydlu gweithdrefn ar gyfer adolygiad cylchol o ddarpariaeth Pearson. Gweithredwyd hyn yn 2017 fel y nodir o dan Adran 2.3.

37 Teimlai'r Grŵp fod cynnydd da wedi'i wneud ers 2016, a bod prosesau ansawdd wedi aeddfedu ac wedi'u gwreiddio'n llwyddiannus. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Grŵp wedi ymateb yn rhagweithiol i argymhellion 2016, a'u bod yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth AU mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

2.5 Ymagwedd at ddefnyddio data i ffurfio sail ar gyfer gwneud penderfyniadau a gwerthuso

38 Mae defnyddio data yn rhan allweddol o brosesau ansawdd y Grŵp, ac mae'r broses Adroddiad Blynyddol ar Raglenni / Adroddiad Monitro yn y pen draw yn arwain at gynhyrchu Cynllun Gwella Ansawdd ar gyfer pob rhaglen. Mae'r templed ar gyfer Adroddiad Blynyddol ar Raglenni yn ei gwneud yn ofynnol i staff fyfyrwyr ar fetrigau addysg uwch allweddol, gan gynnwys data ar recriwtio, presenoldeb, dargadwedd, cyrhaeddiad, a chwblhau cyrsiau. Adolygodd y tîm sawl Adroddiad Blynyddol ar Raglenni a chanfuwyd rhywfaint o amrywiaeth yn ansawdd yr adroddiadau terfynol. Clywodd y tîm er bod hyfforddiant penodol ar brosesau ansawdd y Grŵp yn ofynnol ar gyfer y rhai a benodir o'r newydd, ychydig o ddatblygiad a hyfforddiant parhaus oedd yn digwydd ar gyfer staff academaidd sefydledig.

39 Yn ogystal â hynny, canfu'r tîm fod prosesau anffurfiol yn cael eu defnyddio pan fydd rheolwyr rhaglen sy'n gadael y rôl yn trosglwyddo gwybodaeth bwysig i'r rhai sy'n cael eu penodi yn eu lle. Mae i'r diffyg hyfforddiant ffurfiol hwn y potensial i danseilio rhai elfennau o brosesau ansawdd y Grŵp, a gallai arwain at anghysondebau. Mae'r tîm yn argymhell bod y Grŵp yn ffurfioli a gweithredu hyfforddiant priodol, ar gyfer staff academaidd

sefydledig, ym mhrosesau ansawdd y Grŵp i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n gyson. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 18, defnyddir Adroddiad Blynyddol ar Raglenni / Adroddiad Monitro ar lefel rhaglen i gynhyrchu PASAR ac mae'r rhain yn llywio Dogfen Hunanwerthuso AU y Grŵp sy'n rhoi dadansoddiad o'r holl ddata addysg uwch perthnasol.

40 Mae GLIM yn gwneud defnydd helaeth o arbenigedd allanol, gan gynnwys Arholwyr Allanol a Chymedrolwyr Allanol. Ar ôl derbyn cyflenwad llawn o adroddiadau gan Arholwyr Allanol a Chymedrolwyr Allanol ar gyfer pob un o'i raglenni, cyflwynir manylion ar themâu allweddol ar ffurf adroddiad coch / ambr / gwyrdd sy'n amlinellu, ar gyfer pob rhaglen AU, unrhyw feysydd i'w datblygu ac arfer da. Ar ddechrau'r adroddiad hwn mae crynodeb yn amlinellu faint o gamau gweithredu, yn ôl eu difrifoldeb, yr aethpwyd i'r afael â nhw neu sydd heb eu datrys o hyd. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i HEQASG fonitro gweithrediad unrhyw gamau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w datblygu sy'n weddill. Mae ymatebion ar lefel rhaglen i sylwadau gan Arholwyr Allanol a Chymedrolwr yn bwydo i'r broses Adroddiad Blynyddol ar Raglenni / Adroddiad Monitro.

41 Mae dangosyddion perfformiad allweddol, adborth myfyrwyr a chynnydd ar feysydd i'w datblygu yn cael eu monitro'n barhaus yn ystod y flwyddyn mewn sawl pwyllgor, gan gynnwys HEQASG a CSSC. Mae monitro wedi'i alluogi, yn rhannol, gan ddangosfwrdd ar-lein GLIM sy'n darparu cyfraddau dargadwedd yn ystod y flwyddyn, cyfraddau cwblhau a ragwelwyd a gwirioneddol, yn ogystal â data cyrhaeddiad a phresenoldeb myfyrwyr ar lefel rhaglen, maes rhaglen, ac AU y Grŵp. Mae'r dangosfwrdd ar gael i staff ar bob lefel ac ar gyfer pob agwedd ar y ddarpariaeth.

42 Rhoddwyd sawl enghraifft i'r tîm o sut y defnyddiwyd y data a gynhwyswyd ar y dangosfwrdd yn ymarferol. Er enghraifft, canfod yn gyflym rhaglenni AU sy'n tanberfformio, sydd wedyn yn cael eu monitro a'u cynorthwyo gan y Tîm Strategol, sef yr Uwch Dîm Rheoli, HEQASG, a CSSC. Mae'r data hefyd yn galluogi staff i fonitro cynnydd yn well yn erbyn themâu gwelliant allweddol, megis y disgwyliad y dylai presenoldeb AU fod yn 85% neu'n uwch. Er mwyn olrhain hyn, mae'r Grŵp wedi datblygu adroddiad monitro sy'n caniatáu i Reolwyr Maes Rhaglenni ac Arweinwyr Rhaglenni nodi'n gyflym y myfyrwyr a allai fod mewn perygl o beidio â chydymffurfio, ac felly o beidio â chwblhau eu cyrsiau. Mae canlyniadau gwerthuso modiwlau hefyd yn cael eu cofnodi ar y dangosfwrdd, gan alluogi staff i ddynodi problemau yn ystod y flwyddyn, yn hytrach nag aros tan ddiwedd y flwyddyn academaidd. Roedd y tîm o'r farn bod dull y Grŵp o ddefnyddio data i lywio penderfyniadau a gwerthuso yn gadarn.

2.6 Effeithiolrwydd sut y defnyddir dulliau o ymdrin ag ansawdd i wella dysgu ac addysgu

43 Mae gwella dysgu ac addysgu yn flaenllaw ym mholisiau a gweithdrefnau'r Grŵp sy'n caniatáu iddynt weithio tuag at wireddu sawl elfen o'r Cynllun Strategol, 2019 -2024. Nod y Cynllun Ffioedd a Mynediad yw sicrhau bod dysgwyr na fyddent fel arfer yn mynd i mewn i addysg uwch yn teimlo y gallant wneud hynny a chyflawni canlyniadau da. Cynllunnir rhaglenni i raddau helaeth mewn cydweithrediad agos â phartneriaid mewn diwydiant, gan sicrhau bod y cwricwlwm AU a gynigir yn bodloni anghenion cyflogwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Clywodd y tîm am sawl enghraifft o'r Grŵp yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr i gynllunio cyrsiau o ansawdd uchel, gan gynnwys Tystysgrif AU mewn Arfer Gofal Iechyd a ddatblygwyd gan y Grŵp, Prifysgol Bangor, a Bwrdd Iechyd Gogledd Cymru. Mae'r Grŵp wedi buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau dysgu wyneb-yn-wyneb a rhithwir mewn ymateb i adborth myfyrwyr o adolygiadau modiwl, y broses Adroddiad Blynyddol ar Raglenni, a'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr. Mae tîm yn canmol y cyfleusterau addysgu a dysgu cynhwysfawr sydd ar gael i fyfyrwyr, gan gynnwys y defnydd helaeth o dechnoleg i gynorthwyo addysgu.

44 Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i sicrhau bod gan ei staff addysgu gymwysterau priodol a disgwylir i bob aelod o staff addysgu feddu ar gymhwyster TAR. Cânt eu hannog hefyd i wneud cais am gymrodoriaeth o'r Academi Addysg Uwch, a chânt eu cynorthwyo yn hyn o beth yn rhannol gan dîm Canolfan Gwella Dysgu ac Addysgu Prifysgol Bangor. Mae cyfleoedd eraill ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus sydd ar gael i staff yn cynnwys datblygu sgiliau cyflwyno ar-lein. Clywodd y tîm fod y gweithgareddau hyn wedi arwain at welliannau sylweddol ar sawl rhaglen ac, ar wahân, bod myfyrwyr yn hapus iawn â'r profiad addysgol a gânt. Rhoddwyd canmoliaeth i agwedd strategol y Grŵp at y ddarpariaeth ar gyfer dysgu ar-lein a dysgu o bell, sy'n sicrhau profiad dysgu cynhwysol. Daeth y tîm i'r casgliad bod polisïau a phrosesau ansawdd GLIM yn caniatáu iddynt wella a chyfoethogi dysgu ac addysgu ar gyfer pob myfyriwr.

2.7 Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academiaidd

45 Mae mecanweithiau effeithiol ar gyfer sicrhau safonau academiaidd yn cynnwys ail-farcio ac arholwyr allanol. Nododd adolygiad QAA 2016 y defnydd o adroddiadau arholwyr allanol i lywio datblygiad ansawdd fel arfer da. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau bod ffocws tebyg wedi parhau yn y blynyddoedd diwethaf. Mae camau gweithredu sy'n ofynnol neu a argymhellir gan arholwyr a chymedrolwyr allanol, fel y disgrifir ym mharagraff 40, wedi'u cynnwys mewn Adroddiad coch / ambr / gwyrdd, gyda'r Bwrdd Myfyrwyr perthnasol lleol yn gyfrifol am weithredu newidiadau ar lawr gwlad. Darperir arolygiaeth gan HEQASG a chaiff diweddariad ar argymhellion ynghyd â diweddariadau rheolaidd eraill eu hanfon at asiantaethau allanol, er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu gosod a'u monitro'n briodol drwy gydol y flwyddyn academiaidd.

46 Mae allanoldeb yn nodwedd yr un mor bwysig o'r broses ddilysu ac aiddilysu. Yn yr un modd, mae ymgysylltu â gofynion penodol cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol yn dangos bod y Grŵp yn sicrhau bod safonau proffesiynol yn cael eu cynnal yn effeithiol. Yn fewnol, mae rôl y Rheolwr Datblygu AU wrth gynorthwyo â chynllunio'r cwricwlwm yn helpu i sicrhau cysondeb a phrofiad dysgu teg i bob myfyriwr, waeth beth fo'r campws dan sylw.

47 Mae yna lefel uchel o gymorth academiaidd a bugeiliol ar gael i fyfyrwyr drwy gydol eu hastudiaethau. Mae pob myfyriwr yn mynychu sesiynau tiwtorial ffurfiol ac yn cyfarfod yn anffurfiol â staff fel bod unrhyw broblemau'n cael eu datrys yn gyflym. Mae myfyrwyr yn glir ynghylch ble i ddod o hyd i ddogfennau perthnasol a sut i gael cymorth os oes angen. Mae hyn yn helpu i gynnal safonau academiaidd ar draws y Grŵp. Mae'r tîm yn **canmol** ehangder a dyfnder y gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael ar bob campws ac ar gyfer pob myfyriwr, sy'n galluogi eu datblygiad academiaidd, personol a phroffesiynol

48 Yn hanesyddol, dim ond nifer isel o achosion o arfer annheg a nodwyd. Serch hynny, bu cynnydd cyson yn nifer y mân droseddau rhwng 2017-18 a 2020-21, er i'r Grŵp sôn bod defnydd y staff o *Turnitin* dros y cyfnod hwn, ynghyd â'r cynnydd yn nifer yr achosion yr adroddir amdanynt, yn dangos bod proses wirio drylwyr bellach ar waith.

49 Yn seiliedig ar dystiolaeth a welwyd ac a glywyd, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y rheolaeth ar safonau academiaidd ar gyfer cyrhaeddiad myfyrwyr, a osodir ac a gynhelir gan y Grŵp yn gadarn.

2.8 Effeithiolrwydd dull y darparwydd o hunan-werthuso, gan gynnwys y defnydd effeithiol o ddata i lywio penderfyniadau

50 Mae gan GLIM ddull cynhwysfawr o hunan-werthuso. Mae hyn yn dechrau ar lefel rhaglen gyda'r broses Adroddiad Blynyddol ar Raglenni sy'n cwmpasu pob agwedd ar brofiad academiaidd myfyrwyr, o recriwtio i adborth a chanlyniadau myfyrwyr. Yn ogystal, nodir nifer o themâu gwella ansawdd tymor hwy i dimau rhaglen fyfyrion arnynt yn eu

Hadroddiadau Blynyddol ar Raglenni. Nodir y rhain yn HEQASG gan edrych ar adborth gan Arholwyr Allanol a Chymedrolwyr, y set ddata Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), a'r rownd ddiwethaf o Adroddiadau Blynyddol. Mae enghreifftiau blaenorol yn cynnwys gwella presenoldeb a dargadwedd. Yn 2018 -19, lluniwyd adroddiad presenoldeb 85+ drwy'r system dangosfwrdd i gefnogi'r thema gwelliant. Arweiniodd hyn at welliant mewn presenoldeb, gan fynd 1.5% yn uwch na'r targed ar gyfer presenoldeb o 85% yn 2020-21.

51 Mae monitro rhaglenni AU yn rheolaidd gan y HEQASG yn nodi sut mae rhaglenni'n perfformio yn erbyn DPA AU y Grŵp. Mae rhaglenni sydd mewn categori risg yn cael eu rhoi ar restr fonitro ac yn cael cymorth i wella. Yn 2020-21, gosodwyd 12 rhaglen oedd â chyfraddau cwblhau isel, ar y rhestr. Yn dilyn ymyriadau gan HEQASG, gwelodd traean o'r rhain a chawsant eu tynnu oddi ar y rhestr fonitro. Arweiniodd enghreifftiau o'r fath y tîm adolygu i ddod i'r casgliad bod gan y Grŵp ddull cadarn o hunan-werthuso, gan gynnwys defnydd effeithiol o ddata i lywio penderfyniadau.

3 Darpariaeth gydweithredol

3.1 Nodweddion allweddol dull strategol y darparydd (gan gynnwys gweithgaredd cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell, lle caiff ei gyflwyno gydag eraill, a dysgu yn y gwaith)

52 Mae gan y Grŵp dri nod strategol: y cyntaf yw ysbrydoli pob myfyriwr i gyflawni ei botensial; yr ail yw creu gweithlu medrus i gefnogi cyflogwyr; a'r trydydd yw datblygu eu safle fel sefydliad addysg a hyfforddiant blaenllaw. Mae darpariaeth AU GLIM yn cyd-fynd â chynllun strategol cyfredol y sefydliad, sef Gwella Dyfodol Pobl, sydd ar waith tan 2024. Mae'r cynllun yn cefnogi cyflawniad pob un o'r tri nod strategol, ond gyda ffocws penodol ar yr ail nod strategol, sef creu gweithlu medrus i gynorthwyo cyflogwyr.

53 Mae GLIM yn gweithio'n effeithiol gyda Phrifysgol Bangor i sicrhau bod datblygu a gweithredu prosesau ansawdd yn cyd-fynd yn glir â'r tri nod strategol. Mae'r bartneriaeth yn seiliedig ar ethos o gydweithio ac nid cystadleuaeth, lle mae arbenigedd galwedigaethol staff y Grŵp yn ategu arbenigedd academiaidd y brifysgol. Enghraifft effeithiol yw datblygiad y ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd newydd sy'n bodloni anghenion cyflogwyr yn yr ardal leol. Mae trefniadau monitro'r bartneriaeth yn sicrhau bod datblygiadau ansawdd yn cael eu trafod gyda'r Brifysgol a bod modd rhannu arfer da rhwng sefydliadau. Ceir tystiolaeth bellach o hyn yn y ddarpariaeth gydweithredol ar raglenni sy'n 'eiddo' i Brifysgol Bangor, megis Plismona, Prentisiaethau Gradd mewn Peirianneg a Digidol, a llwybrau Gwyddoniaeth Sylfaenol Blwyddyn Sero, sy'n defnyddio arbenigedd staff GLIM i sicrhau bod myfyrwyr prifysgol yn cael y profiad gorau posibl.

54 Ymgwymerwyd ag ail-gwymeradwyaeth sefydliadol llawn o GLIM gan Brifysgol Bangor yn 2021. Amlygodd y canlyniadau'r prosesau sicrhau ansawdd a monitro mewnol cynhwysfawr a chadarn o fewn y Grŵp, y defnydd o'r system diwtora personol i hwyluso'r pontio i ddysgu annibynnol, y buddsoddiad helaeth a'r ymgysylltu lefel uchel mewn meithrin perthnasoedd â chyflogwyr a datblygu dull cadarn o addysgu a dysgu'n seiliedig ar welliant.

55 Mae pob gradd sylfaen yn cynnwys modiwlau seiliedig ar gyflogadwyedd o 20 credyd y flwyddyn, sy'n cynnwys ystod eang o opsiynau profiad gwaith. Cadarnhaodd y myfyrwyr fod y modiwlau hyn yn ddefnyddiol, er bod sicrhau oriau gwirfoddoli digonol weithiau'n anodd o safbwynt ymarferol. Mae'r Grŵp wedi rhoi fframwaith arfer gorau ar waith ar gyfer prentisiaethau, gan gynnwys prentisiaethau uwch. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd fesul maes sector i adolygu perfformiad cyrsiau. Cynhyrchir canllawiau llawn gwybodaeth i gyflogwyr ar gyfer graddau sylfaen a phrentisiaethau gradd.

56 Mae partneriaeth bellach gyda'r CCC yn ategu arferion cydweithio effeithiol gyda darpariaeth AU GLIM. Mae dau Swyddog Cangen y CCC wedi cael eu penodi i weithio gyda staff a myfyrwyr ar draws pob campws, gan ddarparu cymorth, rhannu gwybodaeth, a hyrwyddo cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llysgennad AU y CCC hefyd wedi'i benodi am y tro cyntaf eleni gyda'r nod o wella'r berthynas hon ymhellach. Pwrpas y rôl yw annog mwy o fyfyrwyr i ddilyn eu hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn GLIM ac amlygu manteision gwneud hynny.

57 Mae rhai o raglenni AU y Grŵp hefyd yn gymwys ar gyfer Ysgoloriaeth Cymhelliant y CCC, gyda'r nod o gynyddu nifer y rhaglenni sydd ar gael ar gyfer y cymhelliant. I ddechrau roedd gan GLIM un rhaglen AU wedi'i chymeradwyo, ac yn 2020-21 cynyddodd hyn i bump. Mae Swyddogion Cangen y CCC ar hyn o bryd yn gweithio gyda Rheolwr Datblygu AU y Grŵp a chydlynwyr cyrsiau i ddatblygu'r ddarpariaeth AU Gymraeg ymhellach, gyda'r nod o ychwanegu pedair rhaglen arall at y rhestr ysgoloriaethau cymhelliant erbyn 2022-23.

58 Mae gan GLIM bartneriaethau strategol datblygedig ar draws ei ddarpariaeth AU ac mae'r tîm adolygu'n canmol yr ymagwedd strategol at y ddarpariaeth dysgu ar-lein a dysgu o bell sy'n sicrhau profiad dysgu cynhwysol i fyfyrwyr.

3.2 Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol a chynlluniau ar gyfer newid

59 Mae darpariaeth AU GLIM yn cynnwys dysgu yn yr ystafell ddosbarth, ar-lein, dysgu o bell a chyfunol, yn ogystal â rhaglenni dysgu seiliedig ar waith. Dilysir y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth trwy Brifysgol Bangor, gan gynnwys Graddau Sylfaen, rhaglenni atodol Lefel 6 a chyrtsiau gradd tair blynedd. Yn ogystal, cyflwynir un rhaglen AU ar Lefel 7, nifer fach o Brentisiaethau Gradd, a detholiad llai o raglenni HNC/D Pearson.

60 Yn strategol, mae Bwrdd GLIM wedi ystyried y blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth AU y Grŵp ac wedi nodi saith maes allweddol i'w datblygu, sy'n cynnwys cefnogi adferiad a thwf economaidd rhanbarthol, datblygiad pellach llwybrau AU galwedigaethol Lefel 4 a 5, dulliau dysgu cyfunol effeithiol ac yn yr ystafell ddosbarth, ynghyd â chynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg.

61 Mae yna gydweithio cryf gyda Phrifysgol Bangor sy'n ehangu cyfleoedd a dewisiadau i ddarpar ymgeiswyr yn y rhanbarth. Mae rhaglenni AU GLIM yn cael eu datblygu'n ofalus mewn ymateb i anghenion cyflogwyr nawr ac yn y dyfodol, ac mae graddedigion mewn sefyllfa dda i gael cyflogaeth lefel uwch yn y rhanbarth ar sail eu sgiliau.

62 Mae'r bartneriaeth rhwng y Grŵp a'r Brifysgol yn gwella'r ymrwymiad i'r agenda ehangu mynediad, yn enwedig drwy ddysgu rhan-amser a hyblyg. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cefnogi ac yn hwyluso ymgysylltiad staff â datblygiad proffesiynol trwy gynllun cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch, sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd yng nghyfarfodydd y bartneriaeth. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i'r naill bartner a'r llall rannu arfer da wrth ysgogi gwelliant.

62 Clywodd y tîm adolygu fanylion ynghylch ystod eang o systemau a phrosesau sy'n dangos y trefniadau cadarnhaol sydd ar waith gyda sefydliadau partner. Mae cyfarfodydd gyda staff a chyflogwyr yn cadarnhau bod y rhain yn effeithiol wrth fonitro a gweithredu newidiadau yn y ddarpariaeth gydweithredol.

3.3 Effeithiolrwydd y dull o reoli darpariaeth gydweithredol gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu myfyrwyr

63 Mae gan y Grŵp ddull effeithiol o reoli darpariaeth gydweithredol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfrannu'n bwrpasol at sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.

64 Mae systemau a phrosesau effeithiol ar waith ar gyfer annog ymgysylltiad myfyrwyr. Gofynnir i raddedigion, yn ogystal â myfyrwyr cyfredol, i roi adborth ar gynllunio a datblygu rhaglenni yn ystod y broses ddilysu. Yn ogystal â grwpiau ffocws, cesglir gwybodaeth gan fyfyrwyr trwy ohebiaeth uniongyrchol gan arweinwyr rhaglenni ar lefel modiwl. Mae hyn yn galluogi'r timau rhaglen i gynnwys adborth gan fyfyrwyr cyfredol a chyn-fyfyrwyr sydd bellach mewn cyflogaeth. Mae adborth yn cael ei ddadansoddi a'i gymhwyso i ddatblygu modiwlau sy'n cynnwys y sgiliau ymarferol, academaidd a chyflogadwyedd priodol sydd eu hangen yn y diwydiant. Mae hyn yn cynnig datblygiad sy'n benodol ar gyfer rhaglenni, nid yn unig o ran cyflwyno ac asesu modiwlau, ond mae hefyd yn adlewyrchiad o effaith modiwlau a chynnwys cyrsiau o fewn arfer diwydiannol. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad yn sgil cyfarfodydd gyda myfyrwyr, staff a chyflogwyr bod ystod o ddulliau cadarnhaol i sicrhau bod

adborth yn cael ei gasglu'n rheolaidd ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i nodi cryfderau a gwelliannau yng nghynnwys rhaglenni.

65 Mae arlwy AU GLIM wedi'i ddatblygu i ddiwallu anghenion cyflogwyr ac mae'n cynnig dulliau cyflwyno hyblyg. Mae gan y cynnig rôl hollbwysig o ran uwchsgilio ac ailhyfforddi gweithluoedd yng ngogledd Cymru. Mae'r ddarpariaeth AU alwedigaethol wedi'i hadolygu i gyd-fynd â meysydd blaenoriaeth y Cynllun Sgiliau Rhanbarthol, o safbwynt agenda sy'n seiliedig ar y galw gan gyflogwyr a'r agenda sgiliau yng Ngogledd Cymru. Mae darpariaeth AU arfaethedig GLIM yn cyfrannu at uwchsgilio'r gweithlu trwy ddarpariaeth ran-amser, ac fe'i hategir gan gryfder y partneriaethau cyflogwyr a rhanddeiliaid rhwng sefydliadau AU ac AB, cynghorau sgiliau sector, arbenigwyr allanol a chynrychiolwyr cyflogwyr.

66 Mae'r Grŵp yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i sicrhau bod cysylltiadau priodol ar gyfer twf mewn meysydd blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth gyda Phrifysgol Bangor wedi galluogi ehangu rhaglenni Peirianeg, Seiber a Chyfrifiadureg, sy'n feysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer cyflogadwyedd o fewn y diwydiant.

67 Mae GLIM yn arbenigo mewn dysgu seiliedig ar waith, ac AB ac AU mewn lleoliad AB sy'n aml yn bodloni anghenion myfyrwyr AU sy'n gweithio mewn rolau sylweddol. Nododd y tîm adolygu amrywiaeth o systemau a phrosesau i ddangos y cymwyseddau hyn. Er enghraifft,

68 Mae gan GLIM brofiad hir-sefydlog ac eang o weithio'n llwyddiannus gyda diwydiant, ac mae gan Brifysgol Bangor enw da am ragoriaeth academiaidd a gydnabyddir gyda gwobr Aur y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu am addysgu. Ar y cyd, maent wedi datblygu cyfres o gymwysterau sy'n cwmpasu'r sgiliau lefel uwch mewn digidol a pheirianeg sydd eu hangen ar sefydliadau er mwyn iddynt ddatblygu a bodloni heriau technoleg yn y dyfodol.

69 Mae darpariaeth dysgu yn y gwaith sydd wedi'i chynllunio'n dda wedi'i gwreiddio mewn rhaglenni AU. Mae llawer o agweddau ar gyflwyno'n cael eu cyfuno ar gyfer myfyrwyr israddedig a phrentisiaid gradd israddedig. Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r holl Brentisiaethau Gradd gael eu darparu dros dair blynedd, gyda phrentisiaid yn mynychu GLIM un diwrnod ac un noson bob wythnos am y ddwy flynedd gyntaf ac yna'n mynd i Brifysgol Bangor ar gyfer trydedd flwyddyn y rhaglen. Yn ogystal, mae pob prentis yn ymgymryd â dysgu ychwanegol yn y gwaith yn eu man cyflogaeth. Mae'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau y gall GLIM dynnu ar y cryfderau niferus a gynigir gan y ddwy bartneriaeth.

70 Tynnodd adroddiad blaenorol QAA yn 2016 sylw at y partneriaethau cynaliadwy a chydlynol gyda chyflogwyr sy'n cynorthwyo â datblygu a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda phartneriaid a chyflogwyr yn cadarnhau bod hyn wedi parhau i fod yn effeithiol.

71 Mae darpariaeth HNC/D *Pearson* ar Lefelau 4 a 5 ar draws campysau GLIM wedi'i hymestyn i gynnwys Peirianeg yng Ngholeg Menai a Choleg Meirion Dwyfor a'r Celfyddydau Perfformio yng Ngholeg Llandrillo. Cynhaliwyd adolygiad cylchol o raglenni *Pearson* yn 2017 i sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu ar gyfer aelodau'r panel adolygu a thimau rhaglen. Archwiliodd y panel adolygu ystod o ddogfennaeth, gan gyfarfod â thimau rhaglen, myfyrwyr cyfredol a chyn-fyfyrwyr i lunio adroddiad gwerthusol a chynllun gweithredu. Nodwyd 20 o gamau gweithredu ar ôl cwblhau'r adolygiad, ac aethpwyd i'r afael â 19 ohonynt erbyn 2019-20. Mae'r cam gweithredu sy'n weddill, sy'n ymwneud â chydweithio gyda Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol, yn parhau. Bwriedir cynnal yr adolygiad nesaf yn 2022.

72 Daw'r tîm adolygu i'r casgliad bod gan GLIM ddull effeithiol o reoli darpariaeth gydweithredol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu myfyrwyr. Mae'r tîm yn **canmol** yr arfer o gynnwys cyflogwyr ac arbenigwyr pwnc allanol eraill wrth gynllunio a chyflwyno rhaglenni sy'n effeithiol o ran gwella profiad galwedigaethol a dilynant y myfyrwyr.

QAA2671 - R13107 - Gorffennaf 22

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk